



Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i weithrediad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Tystiolaeth ysgrifenedig Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r dystiolaeth ysgrifenedig hon i gefnogi'r sesiwn dystiolaeth a gynhelir gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 20 Tachwedd i ystyried rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith trwy lens anghydraddoldebau iechyd. Mae'r dystiolaeth hon yn canolbwyntio ar y Cynllun Gweithredu yng nghyd-destun ein Rhaglenni Sgrinio Cenedlaethol.

Rhaglenni Sgrinio Cenedlaethol

Ar draws y rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, ein gweledigaeth yw bod pawb sy'n gymwys i gael eu sgrinio yn cael mynediad cyfartal a chyfle i fanteisio ar eu cynnig sgrinio gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy i wneud dewis gwybodus personol. Mae nifer o gamau gweithredu wedi'u nodi yn ein Strategaeth Tegwch, wedi'u grwpio yn ôl y themâu Cyfathrebu, Cydweithio, y Gymuned ac Ymgysylltu, Cyflenwi Gwasanaethau a Data a monitro.

Mae ein Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth, a sefydliadau sy'n cefnogi ac yn gweithio gyda grwpiau a chymunedau gan gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig. Casglodd prosiect diweddar fewnwelediad gan nifer o unigolion a sefydliadau ac roedd yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod amrywiol o gymunedau lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys Sipsiwn a theithwyr; Ymeniaidd, Somaliaidd a Swdaneaidd; Affro-Caribiaidd; De Asiaidd; Tseineaidd a phobl sy'n ceisio noddfa. Mae'r gwaith hwn yn ein galluogi i gipio profiad bywyd pobl o leiafrifoedd ethnig ac archwilio rhwystrau a galluogwyr i gymryd rhan mewn sgrinio, cyn edrych ar y cyd ar yr hyn y gallwn ei wneud i gryfhau'r galluogwyr a goresgyn y rhwystrau. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir i lywio'r ffordd yr ydym yn cyflenwi ein gwasanaethau.

Rydym yn rhoi sylw arbennig i'n gwybodaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau bod pobl sy'n siarad ieithoedd eraill neu sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol yn gallu cael mynediad at ein hadnoddau. Mae ein taflenni Hawdd eu Deall wedi cael eu datblygu gyda mewnbwn penodol gan grwpiau ethnig lleiafrifol i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn ddealladwy, a bod modd uniaethu â'r delweddau. Er enghraifft: [Ynglŷn â'ch pecyn prawf y coluddyn \(gig.cymru\)](#) Y nod yw grymuso pobl i wneud dewisiadau gwybodus trwy ddefnyddio iaith syml a lluniau i egluro'r prawf sgrinio. Yn ogystal â'r fersiynau Hawdd eu Deall, mae gennym broses glir o ran datblygu gwybodaeth sy'n sicrhau bod ein holl wybodaeth yn defnyddio iaith mor syml â phosibl. Mae gan ein gwefannau swyddogaeth cyfieithu Amliaith ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr digidol i wella hyn ymhellach.

Darperir hyfforddiant ac addysg sgrinio cymunedol i bobl allweddol sy'n gweithio a/neu sydd â rôl



weithredol yn hybu iechyd a llesiant ar lefel gymunedol neu o fewn y gweithle. Mae hyn yn galluogi lleisiau y gellir ymddiried ynddynt mewn cymunedau i godi ymwybyddiaeth, cael sgysiau gwybodus agored a chyflwyno negeseuon mewn ffordd sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw neu'n eu cefnogi. [Hyfforddiant ac Addysg Gymunedol - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru) Mae rhan o'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cyfeirio at ein

adnoddau hygyrch fel y gellir rhannu'r rhain â phobl a allai fod eu hangen.

Roedd ein cynlluniau adferiad COVID yn canolbwyntio'n glir ar leihau annhegwch, gan gydnabod yr effaith wahaniaethol a gafodd y pandemig ar wahanol grwpiau yn y boblogaeth.

Mae gennym grŵp ymroddedig sy'n ystyried anghydraddoldebau ynghylch Sgrinio a Hyrwyddwr Tegwch ym mhob un o'n Rhaglenni Sgrinio. Mae'r grŵp hwn yn codi arbenigedd o adborth defnyddwyr gwasanaeth, gwaith ymgysylltu rhagweithiol a'r llenyddiaeth gyhoeddedig. Mae yna hefyd gyfarfod partneriaeth annhegwch rheolaidd gyda Thimau Iechyd y Cyhoedd Lleol sy'n ceisio rhannu dysgu ac arferion da ar draws y system.

Dyddiad: 15 Tachwedd 2023

Awduron:

- Dr Sikha de Souza, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd
- Sharon Hillier, Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio
- Yr Athro Fu-Meng Khaw, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio



Iechyd Cyhoeddus Cymru Strategaeth Tegwch Sgrinio 2022-2025

Dyddiad: Mehefin 2022

Fersiwn:
WEFAN v1

Awduron:

Bethan Bowden, Cofrestrydd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus
Heather Ramessur, Arbenigwr Ymgysylltu â Sgrinio Arweiniol
Sikha de Souza, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus

Cyhoeddi/Dosbarthu:

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru
Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol mewn Byrddau Iechyd Lleol drwy'r Grŵp
Sgrinio ac Annhegwch
Tîm Arwain y Gyfarwyddiaeth HPSS
Rhanddeiliaid ehangach ar gais

1 Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth, ar draws y rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, yw bod gan **bawb** sy'n gymwys ar gyfer profion sgrinio **fynediad a chyfle teg** i fanteisio ar ei gynnig sgrinio drwy ddefnyddio **gwybodaeth ddibynadwy** i wneud **dewis personol ar sail gwybodaeth**. Diben y strategaeth hon yw nodi sut y gallwn, drwy gydweithio â'n partneriaid mewn Byrddau Iechyd Lleol; y trydydd sector a phobl Cymru, gyflawni'r uchelgais hwn.

Mae dewis cymryd rhan mewn profion sgrinio ai peidio yn ddewis i'r unigolyn sy'n gyson â'i werthoedd a'i amgylchiadau unigryw.¹ Fodd bynnag, nid yw rhai pobl yn gwneud penderfyniad i wrthod prawf sgrinio, ond ni allant dderbyn eu cynnig oherwydd amrywiaeth o rwystrau cysylltiedig. Gall y rhwystrau hyn gynnwys heriau logistaidd neu gorfforol wedi'u sbarduno gan ffactorau economaidd neu amgylcheddol sy'n lleihau mynediad at leoliadau

Ile y cynhelir profion sgrinio. Mae'n bosibl nad yw pobl eraill wedi cael gwybodaeth mewn fformatau neu ieithoedd priodol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i wneud dewis ar sail gwybodaeth. Mae'n bosibl nad yw eraill o'r farn bod profion sgrinio ataliol yn rhan o'u norm cymdeithasol neu eu hunaniaeth ddiwylliannol. Gall y rhwystrau hyn fod yn berthnasol yn genedlaethol neu'n lleol a gallant fod yn benodol i raglen neu ymwneud â chymuned neu unigolyn.

Mae sgrinio'n achub bywydau, yn lleihau cymhlethdodau ac yn galluogi dewis drwy nodi cyflyrau iechyd a'u trin yn gynnar.^{2,3,4} Pan na dderbynnir profion sgrinio'n gyfartal ar draws grwpiau poblogaeth, bydd hyn yn arwain at wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd ar draws y grwpiau hyn, gan arwain at anghydraddoldebau iechyd.⁵ Gan y gellir priodoli'r gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd i benderfyniadau ehangach iechyd, gan gynnwys rhwystrau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol, gellir osgoi'r gwahaniaethau hyn.⁶ Pan fo canlyniadau iechyd gwaeth yn bodoli sy'n annheg neu'n anghyfiawn, defnyddir y term **annhegwch**⁷.

Er mwyn deall y rhwystrau hyn a mynd i'r afael â nhw, bydd angen mwy o ffocws ar dargedu pobl sydd fwyaf mewn perygl o niwed a lle y mae cyfraddau derbyn profion sgrinio'n isel. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth well drwy gasglu data'n well fel y gellir defnyddio dulliau arloesol a rhai sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau annheg a diangen sy'n bodoli. Bydd hyn yn ein helpu i wireddu ein huchelgais, sef mynediad a chyfle teg i bawb gael profion sgrinio.

2 Ein rhaglenni sgrinio

Nod sgrinio yw canfod camau cynnar clefyd neu atal clefyd rhag digwydd. Drwy nodi pobl sy'n fwy tebygol o gael cyflwr iechyd, gellir cynnig opsiynau triniaeth mwy effeithiol neu gellir rhoi gwybodaeth i lywio penderfyniadau am eu gofal yn y dyfodol.⁸ Gall sgrinio hefyd leihau'r tebygolrwydd o ddatblygu cyflwr difrifol, atal salwch a'r niwed a fyddai wedi digwydd fel arall.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn cydlynu'r gwaith o ddarparu wyth rhaglen sgrinio genedlaethol yng Nghymru sy'n cynnig profion sgrinio drwy gydol bywyd, o feichiogrwydd i oedolion hŷn.⁹ Mae pob rhaglen sgrinio'n cynnig prawf i grŵp poblogaeth diffiniedig. Mae hyn yn cyfrannu at flaenoriaeth strategol hirdymor ICC, sef sicrhau dyfodol iachach i Gymru drwy helpu i ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar.¹⁰ Mae darparu gwasanaethau ardderchog ar gyfer rhaglenni sgrinio poblogaeth yn thema allweddol yn Ein Cynllun Strategol 2022-2025¹¹ gan ICC ac mae'n helpu i alluogi iechyd gwell y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy fesurau ataliol a chynaliadwy.

Dyma'r llwybrau sgrinio cenedlaethol seiliedig ar boblogaeth yng Nghymru:

1. Bron Brawf Cymru
2. Sgrinio Coluddion Cymru
3. Sgrinio Serfigol Cymru
4. Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
5. Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru
6. Sgrinio Clyw Babanod Cymru
7. Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
8. Rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'i gydlynu gan ICC

3 Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion

Bydd creu diwylliant o gamau cadarnhaol lle y mae cyfle cyfartal ar flaen y gad o ran ein gwaith yn arwain at fuddiannau sylweddol i'n pobl a'n gwasanaethau. Mae hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd ac egwyddorion GIG Cymru, sef gofal, atal a llesiant sy'n canolbwyntio ar y person a gweithio mewn partneriaeth â gwerth i bawb sy'n gweithio yng ngwasanaethau'r GIG.¹²

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwbl ymroddedig i werthoedd craidd GIG Cymru drwy'r canlynol:

- Lleihau'r annhegwch y mae rhai grwpiau a chymunedau yng Nghymru yn eu hwynebu
- Gweithio gydag eraill i greu cymunedau mwy cydlynus
- Cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024¹³ ICC yn nodi pum amcan cydraddoldeb sy'n cynnwys camau i Iechyd Cyhoeddus Cymru fel cyflogwr. Er bod yr holl amcanion yn bwysig, mae'r Adran Sgrinio, fel darparwr allanol gwasanaethau gofal iechyd i gymunedau yng Nghymru, yn ymroddedig i ddatblygu amcanion cydraddoldeb pedwar a phump:

- Mynediad at wasanaethau a'n hamgylchedd
- Gwrando, dysgu ac ymateb

Pum ffordd o weithio

Bydd mynd i'r afael ag annhegwch iechyd yn gofyn am gamau cydgysylltiedig ar draws y system iechyd a gofal wrth i bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gydweithio i wella canlyniadau iechyd. Bydd hyn yn cynnwys cymunedau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r dull y gellir ei

fabwysiadu wrth ddatblygu, gweithredu a gwerthuso ein gwasanaethau sgrinio. Mae hyn yn cynnwys:

1. Hirdymor
2. Atal
3. Integreiddio
4. Cydweithio
5. Cynnwys¹⁴

4 Deall annhegwch

Gall annhegwch iechyd fodoli ar draws amrywiaeth o nodweddion neu ddimensiynau. Mae hyn yn cynnwys penderfynyddion ehangach iechyd fel yr amodau rydym yn gweithio, yn byw ac yn chwarae ynddynt, yn ogystal â ffactorau unigol, gan gynnwys ymddygiad afiach sy'n cynyddu risg. Gall mynediad at wasanaethau a phrofiad ohonynt oherwydd gwahaniaethu hefyd arwain at ganlyniadau iechyd gwahanol. Mae angen ystyried pobl sydd wedi'u gwarchod dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, unigolion o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ac unigolion o grwpiau cynhwysiant a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a sefydlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹⁵ yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus ac eraill sy'n cynnal swyddogaethau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith o ddydd i ddydd wrth lunio polisi a darparu gwasanaethau, ac mewn perthynas â'u cyflogeion eu hunain. Mae dyletswydd gyffredinol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- *Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf*
- *Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath*
- *Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath*

Cynigir amddiffyniad cyfreithiol i bobl sydd â **nodweddion gwarchodedig** fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae naw nodwedd warchodedig wedi'u disgrifio fel y nodir yn Ffigur 2.

Fel corff cyhoeddus, mae **gofyniad cyfreithiol** i sicrhau y darperir gwasanaethau sgrinio yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb a sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

Ffigur 2: Nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

<https://myuni.swansea.ac.uk/media/cultural-awareness.jpg>

Anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae graddiant cymdeithasol mewn canlyniadau iechyd yn bodoli – mae iechyd person yn tueddu i fod yn waeth os yw ei sefyllfa gymdeithasol dan fwy o anfantais. Yng Nghymru, mae pobl o gymunedau mwy difreintiedig â disgwyliad oes llai ac maent yn byw am fwy o flynyddoedd mewn iechyd gwael o’u cymharu â phobl sy’n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.¹⁶ Mae cyflwyno’r **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** yng Nghymru ym mis Mawrth 2021 yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, feddwl am sut y gall penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb o ran canlyniad i bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Dyma’r ddyletswydd:

- Rhaid i awdurdod, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i ddymunoldeb eu gwneud mewn ffordd sydd wedi’i chynllunio i leihau **anghydraddoldebau canlyniad sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Fel corff cyhoeddus, mae ystyried cydraddoldeb i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol **yn ofniad cyfreithiol.**

Dyddiad: Mehefin 2022	Fersiwn: 2 - gwe	Tudalen: 5 o 26
-----------------------	------------------	-----------------

Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu grwpiau cynhwysiant yn cyfeirio at y rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol neu sy'n cael profiad o stigma a gwahaniaethu sy'n lleihau mynediad at wasanaethau gofal iechyd presennol a phrofiad ohonynt. Bydd hyn yn cynnwys pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phobl â salwch meddwl a chorfforol.

Mae croestoriadedd ar draws pobl sy'n cael profiad o annhegwch iechyd â phobl â nodwedd warchoddedig fel anabledd sydd hefyd yn byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

5 Deall annhegwch o ran cyfraddau'r rhai sy'n cael eu sgrinio

Mae pob rhaglen sgrinio wedi nodi safonau gwasanaeth gofynnol i sicrhau y bydd y nifer mwyaf o bobl yn cael budd mewn rhaglenni effeithiol ac effeithlon. Mae'r safon uchel gyson ar gyfer darparu gwasanaethau ar draws rhaglenni sgrinio'n sicrhau y cynigir yr un gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb ledled Cymru. Fodd bynnag, ni fydd darparu gwasanaeth cyfartal i bawb yn cefnogi pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n bosibl bod angen cymorth ychwanegol arnynt i fanteisio eu cynnig prawf sgrinio. Nid yw holl bobl Cymru yr un peth ac mae gan rai pobl rwystrau a galluogwyr gwahanol ar gyfer sgrinio, lefelau llythrennedd iechyd gwahanol ac anghenion cyfathrebu amrywiol.


Nid yw llawer o'r clefydau y sgrinnir ar eu cyfer yng Nghymru, fel canser ceg y groth a chanser y coluddyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth gyda nifer uwch o ganser uwch yn ein cymunedau mwy difreintiedig.¹⁷ Mae pobl o gymunedau De Asia yn fwy tebygol o fod â diabetes math 2 o'u cymharu â phobl ethnigrwydd Gwyn.¹⁸ Gall cyfraddau profion sgrinio cyfartal helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn drwy nodi'n gynnar gyda chanlyniadau gwell yn dilyn triniaeth. Yn anffodus, nid yw pawb yng Nghymru yr un mor debygol o fanteisio ar gynnig prawf sgrinio. Mae'r rhai sydd â'r risg fwyaf o niwed iechyd o'r cyflwr yn llai tebygol o fanteisio ar y cynnig prawf sgrinio, gan waethygu annhegwch iechyd sy'n bodoli eisoes.

Er mwyn deall ein poblogaeth amrywiol, rydym wedi archwilio cyfraddau'r rhai sy'n cael eu sgrinio yn ôl oedran, rhywedd ac amddifadedd ardal leol sydd wedi deillio o godau post i ddeall y cyfraddau sgrinio ar draws y penderfynyddion hyn. Gwelwyd gwahaniaethau mewn cyfraddau gan yr holl ffactorau uchod.

5.1 Cyfraddau sgrinio yn ôl amddifadedd

Mae gan bobl yn y cymunedau mwy difreintiedig yng Nghymru gyfraddau sgrinio is na phobl yn y cymunedau lleiaf difreintiedig. Mae Ffigur 3 yn dangos cyfraddau sgrinio gostyngol mewn tuedd linol o'r cwintel lleiaf difreintiedig i'r cwintel mwyaf difreintiedig. Mae'r duedd hon yn gyson ar draws yr holl raglenni sgrinio oedolion yng Nghymru yn 2018/19. 17.3 y cant oedd y bwloch anghydraddoldeb o ran cyfraddau Sgrinio Coluddion Cymru o'r cymunedau lleiaf difreintiedig i'r rhai mwyaf difreintiedig, 15.9 y cant ar gyfer Bron Brawf Cymru, 11.5 y cant ar gyfer Sgrinio Serfigol Cymru, 12.8 y cant ar gyfer y rhaglen sgrinio AAA, a 3.2 y cant ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Ffigur 3: Canran y rhai sy'n cael eu sgrinio/cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd, Cymru 2018-19



Paratowyd gan Adran Wybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nid oes anghydraddoldeb yn y cyfraddau sgrinio yn y rhaglenni newydd-anedig rhwng y cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r amrywiad yn y cyfraddau sgrinio rhwng y rhaglenni'n dangos nad yw'r gwahaniaeth wedi'i bennu ymlaen llaw ac y gallai, o bosibl, gael ei leihau drwy fynediad a chyfle gwell a dealltwriaeth well o wasanaethau sgrinio.

5.2 Cyfraddau hawlio yn ôl rhywedd

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gwahodd cyfranogwyr sy'n uniaethu fel dynion a menywod ar gyfer prawf sgrinio heb feini prawf cymhwystra sy'n seiliedig ar rywedd. Yn 2020/21, roedd cyfraddau profion sgrinio i gyfranogwyr a wahoddwyd yn amrywio yn ôl rhywedd. Mae'r gyfradd yn is

ymlith dynion, sef 66.1 y cant, o'i chymharu â 68.1 y cant ymlith menywod. Mae'r bwlch anghydraddoldeb hwn, sef 2.0 y cant, wedi gostwng ychydig o 3.1 y cant yn 2017/18 (tabl 1).

Tabl 1: Cyfraddau sgrinio coluddyn (y cant) yn ôl rhywedd


	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18
Cyfanswm	67.1	61.5	55.7	53.4
Dynion	66.1	60.4	54.1	51.8
Menywod	68.1	62.6	57.2	54.9
Bwlch Anghydraddoldeb	2.0	2.2	3.1	3.1

Mae'r rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru hefyd yn gwahodd pobl sydd wedi cofrestru gyda'u meddyg teulu fel dyn a menyw heb feini prawf cymhwysra seiliedig ar rywedd. Fodd bynnag, mae'r ymateb i'r pandemig yn cael effaith sylweddol ar y data ar gyfer 2020/21, felly ni ellir defnyddio'r data hyn i archwilio bwlch annhegwch. Bydd hyn yn cael ei archwilio yn y dyfodol wrth i'r rhaglen adfer.


5.3 Cyfraddau sgrinio yn ôl oedran

Mae Sgrinio Serfigol Cymru, Bron Brawf Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn rhaglenni sgrinio ysbeidiol gyda'r cyfranogwyr yn cael eu gwahodd dro ar ôl tro dros gyfnod wedi'i ddiffinio ac ysбайд wedi'i diffinio. Gall cyfraddau hawlio'r rhaglenni sgrinio poblogaeth ysbeidiol oedolion hyn amrywio yn ôl y grŵp oedran a wahoddir gyda chyfraddau sgrinio is ymlith y grwpiau oedran iau o'u cymharu â'r grwpiau oedran hŷn.

Yn 2020/21, ymlith y menywod ifancaf a wahoddwyd (y rhai 25-29 oed) roedd y cyfraddau sgrinio isaf, sef 63.4 y cant, yn Sgrinio Serfigol Cymru. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd ar draws yr holl oedrannau, sef 69.5 y cant. Menywod 50-54 oed oedd â'r gyfradd sgrinio uchaf, sef 77.2 y cant (Ffigur 4).

Ffigur 4: Cyfraddau sgrinio (y cant) gwahoddiad sgrinio serffigol yn ôl grwpiau oedran fesul 5 mlynedd, 2020/21

Yn 2020/21, mae cyfraddau sgrinio'r fron drwy Bron Brawf Cymru yn is ymhlith grwpiau oedran iau o'u cymharu â grwpiau oedran hŷn. Y rhai 50-54 oed sydd â'r gyfradd isaf, sef 62.5 y cant, o'u cymharu â menywod dros 55 oed sydd â chyfradd o 69 y cant neu uwch (Ffigur 5).

Ffigur 5: Cyfraddau sgrinio (y cant) gwahoddiad sgrinio'r fron yn ôl grwpiau oedran fesul 5 mlynedd, 2020/21

Bydd cyfraddau sgrinio isel parhaus ymhlith menywod iau'n arwain at gwmpas cyfartalog is o ran profion sgrinio'r fron gan fod menywod sy'n ymateb i'w gwahoddiad cyntaf yn fwy tebygol o barhau i fynd i apwyntiadau ailalw. Dylid rhoi blaenoriaeth i annog cyfranogiad cyntaf mewn profion sgrinio gan fod hanes sgrinio blaenorol yn arwydd o gymryd rhan mewn profion sgrinio yn y dyfodol.

Mae cyfraddau sgrinio yn ôl oedran wrthi'n cael eu harchwilio yn rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru gyda'r cyfraddau'n is ymhlith y rhai 60-64 oed, sef 65.8 y cant, o'u cymharu â 69 y cant a 68.1 y cant ar gyfer y grŵp oedran 65-69 a'r grŵp oedran 70-74 yn y drefn honno.

5.4 Cyfraddau hawlio yn ôl ethnigrwydd

Nid yw'r data ethnigrwydd yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yn y rhaglen sgrinio. Fodd bynnag, o ddeunydd darllen cyhoeddiedig¹⁹⁻²¹ ac o wybodaeth gymunedol a gafwyd yn lleol o waith ymgysylltu, rydym yn gwybod bod y cyfraddau sgrinio'n is ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Gellir priodoli'r annhegwch hwn yn rhannol i rwystrau diwylliannol sy'n benodol i'r cymunedau hynny. Mae gwybodaeth hygyrch yn rhwystr posibl arall i bobl nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Mae gwahaniaethau mewn cyfraddau sgrinio yn ôl ethnigrwydd yn bodoli yn rhaglenni sgrinio Lloegr a'r Alban. Mae canfyddiadau rhagarweiniol o un o brosiectau Cyfarwyddiaeth Wybodaeth ICC sy'n defnyddio data cysylltiedig â Chyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw ar ethnigrwydd wedi dangos tuedd debyg yng Nghymru. Pobl o grŵp ethnig Asiaidd a grwpiau ethnig anhysbys oedd â'r cyfraddau sgrinio isaf, sef 50.8 y cant a 47.5 y cant yn y drefn honno, o'u cymharu â phobl o grwpiau ethnig Gwyn, sef 60.2 y cant. Fodd bynnag, dylid nodi bod y grŵp ethnig Gwyn yn cynnwys pobl sy'n ystyried eu bod yn rhan o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn ychwanegol at ethnigrwydd Gwyn Prydeinig, fel cymunedau Gwyn Dwyrain Ewrop a phobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Bwriedir gwneud rhagor o ddadansoddi er mwyn deall y cyfraddau sgrinio yn y rhaglen Sgrinio Serfigol.

5.5 Poblogaethau eraill

Ni allwn feintioli graddau llawn annhegwch yn ein rhaglenni sgrinio oherwydd nad yw'r data gofynnol ar gael i ni. Fodd bynnag, mae profiad o'n tîm ymgysylltu a deunydd darllen cyhoeddiedig yn dweud wrthym fod annhegwch sgrinio'n effeithio ar gymunedau penodol, a'u bod yn effeithio arnynt am resymau gwahanol.

Er enghraifft:

- Dylanwedir ar annhegwch i bobl mewn gofal hirdymor gan ein modelau darparu gwasanaethau ac anawsterau wrth gael mynediad at brofion sgrinio, ac i bobl yn y carchar yn yr un modd
- Dylanwedir ar annhegwch i'r gymuned draws gan sut rydym yn gwahodd pobl ac argaeledd gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi dewisiadau ar sail gwybodaeth
- Dylanwedir ar annhegwch i bobl ag anghenion cyfathrebu penodol, er enghraifft y gymuned fyddar, ar gamau gwahanol o'r llwybr gan adnoddau gwybodaeth a chan sut rydym yn darparu ein gwasanaeth
- Dylanwedir ar annhegwch i bobl ag anawsterau dysgu gan ein perthnasoedd â sefydliadau partner sy'n cefnogi pobl i wneud dewisiadau a chael mynediad at wasanaethau iechyd, yn ogystal â'n hadnoddau gwybodaeth

6 Annhegwch ar draws y llwybr sgrinio

Nod rhaglenni sgrinio yw gwella canlyniadau iechyd drwy atal clefydau rhag digwydd neu roi diagnosis cynnar ohonynt i wella effaith y clefyd ar iechyd a llesiant. Darperir gwasanaethau sgrinio ar draws llwybr cyfan, o gynnig cychwynnol prawf sgrinio i driniaeth ddiffiniol. Mae deall tegwch o ran cyfraddau sgrinio, fel y cam cyntaf yn y llwybr hwn, yn hanfodol. Fodd bynnag, ar ôl mynd ar lwybr sgrinio, mae angen i bobl barhau ar hyd llwybr clinigol profion diagnostig ac ymyriadau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Er mwyn gwella canlyniadau iechyd drwy sgrinio, mae angen i ni ystyried annhegwch a all ddigwydd ar unrhyw adeg ar hyd y llwybr sgrinio, gan gynnwys profion diagnostig a thriniaeth. Mae tystiolaeth o raglenni sgrinio eraill yn y DU ac Ewrop yn dangos bod cyfraddau profion diagnostig²² a thriniaeth²³ yn anghyfartal. Drwy gydweithio â phartneriaid clinigol GIG Cymru mewn Byrddau Iechyd Lleol, mae angen i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o annhegwch yn y llwybr clinigol ehangach yng Nghymru. Bydd hyn yn ein helpu i wireddu effaith lawn gofal iechyd ataliol i leihau niwed iechyd i'r rhai sydd â'r risg fwyaf o ran y cyflyrau y sgrinnir ar eu cyfer.

7 Effaith yr ymateb i bandemig Covid-19

Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i ohirio apwyntiadau cleifion allanol di-frys a derbyniadau llawfeddygol a llawdriniaethau di-frys er mwyn ailgyfeirio staff ac adnoddau i gefnogi'r ymateb i Covid-19. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion Iechyd Cyhoeddus Cymru i oedi rhai o'r rhaglenni sgrinio seiliedig ar boblogaeth dros dro. Effeithiodd yr oedi dros dro ar: Bron Brawf Cymru; Sgrinio Serfigol Cymru; Sgrinio Coluddion Cymru; Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru. Nid oedd oedi i'r Rhaglen Sgrinio Cyn Geni, y Rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig na'r Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod ac maent wedi parhau i gael eu cynnig drwy gydol y pandemig.

O fis Mehefin 2020, mabwysiadwyd dull graddol, yn ôl blaenoriaeth, ar gyfer adfer rhaglenni sgrinio seiliedig ar boblogaeth gan yr Adran Sgrinio. Wrth ailddechrau, nododd yr holl raglenni grwpiau diffiniedig yn eu poblogaeth gymwys y dylid blaenoriaethu eu gwahoddiadau sgrinio er mwyn lleihau niwed ac effaith y pandemig.

Mae'r holl raglenni bellach yn gweithio ar y cam adfer nesaf. Ar gyfer rhai, mae hyn yn dal i gynnwys dal i fyny ar yr ôl-groniad o bobl sy'n aros i gael eu sgrinio. Mae'r holl raglenni'n gweithio gyda phartneriaid byrddau iechyd i sicrhau llwybrau diogel ac amserol i'r bobl y mae angen atgyfeiriad arnynt. Mae'r prawf sgrinio wedi parhau i fod yr un peth, ond cafodd y llwybrau eu haddasu i fod yn ddiogel o ran Covid-19. Roedd y mesurau ychwanegol hyn,

yn ogystal â gostyngiad yn nifer y lleoliadau a oedd ar gael i ni, wedi golygu bod llai o gapasiti mewn clinigau sgrinio o'i gymharu â chyn y pandemig. Mae Sgrinio Coluddion Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru wedi adfer eu rhaglenni gan eu bod bellach wedi gwahodd yr holl gyfranogwyr cymwys o'r ôl-groniad. Fodd bynnag, mae'r ddwy raglen, yn ogystal â'r holl raglenni sgrinio eraill, yn dal i wynebu heriau wrth ddarparu'r llwybr sgrinio oherwydd capasiti cyfyngedig mewn gwasanaethau cleifion allanol.

Er mwyn dal i fyny gyda'r bobl sy'n aros i gael eu sgrinio, mae ffocws gwirioneddol yn yr adran ar gyflawni gweithredol, gan gynnwys edrych ar ffyrdd o wneud y gorau o effeithlonrwydd clinigau a lleihau nifer y bobl nad ydynt yn mynd i apwyntiadau. Er bod ffocws ar effeithlonrwydd yn bwysig wrth i ni adfer, rhaid i ni fod yn ymwybodol o effaith newidiadau mewn dulliau darparu gwasanaethau ar gyfraddau sgrinio ar draws ein holl gymunedau. Mae angen i ni ystyried effaith ein ffyrdd newydd o weithio ar annhegwch, gan gynnwys gyda chymunedau penodol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rydym yn gwybod eu bod, o'r blaen, wedi bod yn llai tebygol o fanteisio ar brawf sgrinio, a grwpiau y mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur arnynt.

Mae pandemig Covid-19 wedi gwaethygu annhegwch iechyd a oedd yn bodoli eisoes ymhlith grwpiau penodol, gan gynnwys effaith anghymesur ar bobl o gymunedau difreintiedig, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a phobl â chyflyrau iechyd meddwl. Rhaid i gynlluniau adfer rhaglenni sgrinio yn y dyfodol ystyried yn ofalus yr effaith ar y grwpiau hyn, y mae eisoes yn hysbys bod ganddynt gyfraddau sgrinio is. Wrth i ni newid i ffyrdd newydd o weithio, rhaid i ystyriaeth ynghylch lleihau annhegwch fod ar flaen y gad o ran ein dull.

8 Yr hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael ag annhegwch

Mae mynd i'r afael ag annhegwch bob amser wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran Sgrinio. Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar gyfraddau sgrinio yn ôl cwintel amddifadedd ac rydym wedi archwilio annhegwch yn ôl nodweddion gwahanol fel rhan o waith prosiect a gwaith cymunedol parhaus dan arweiniad ein Tîm Ymgysylltu â Sgrinio.

8.1 Tîm Ymgysylltu â Sgrinio

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio'n dîm galluogi allweddol yn yr Adran Sgrinio, yn gweithio ar draws yr holl raglenni. Roedd y tîm wedi canolbwyntio ar waith cymunedol lleol ond, yn dilyn effaith y pandemig, a newid y ffyrdd o ymgysylltu â chymunedau, mae hyn wedi arwain at newid mewn dull. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar gefnogi mentrau a phrosiectau Cymru gyfan a fydd yn dylanwadu ac yn cael effaith ar raddfa fawr. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio'n gweithio ar draws rhaglenni drwy ddefnyddio dull arweinyddiaeth

systemau drwy ymgysylltu a meithrin perthnasoedd â chymunedau a phartneriaid a all wneud mynd i'r afael ag annhegwch yn rhan annatod o'u ffyrdd o weithio. Wrth weithio gyda rhanddeiliaid, bydd ffocws ar weithio gyda phobl a chymunedau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio wedi cynnal ymarfer cwmpasu ymgysylltu â rhanddeiliaid i ganfod sut roedd rhanddeiliaid cymunedol wedi addasu eu ffyrdd o weithio mewn ymateb i'r pandemig ac archwilio'r rhwystrau i sgrinio i bobl y mae Covid-19 wedi cael effaith anghymesur arnynt. Mae'r prosiect hwn wedi darparu canfyddiadau o ran sut y mae Covid-19 wedi effeithio ar gymunedau ar draws Cymru. Mae hefyd wedi dangos sut y mae sefydliadau cymunedol wedi addasu eu ffyrdd o weithio i gynnal darpariaeth gwasanaeth hanfodol a phwysleisio sut y maent am gael gwybodaeth am raglenni sgrinio'r GIG. Bydd y canfyddiadau o'r prosiect hwn yn llywio sut y mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio'n cynnal ymgysylltu cymunedol yn y dyfodol a byddant yn helpu i ddatblygu gwybodaeth amserol a hygyrch i'r cyhoedd i leihau ofnau a gwella hyder ymhlith cymunedau y mae Covid-19 wedi cael effaith anghymesur arnynt.

8.2 Datblygu gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae gan bob rhaglen grŵp gwybodaeth i'r cyhoedd ac mae cynrychiolydd o bob un yn aelod o grŵp adrannol (grŵp craidd gwybodaeth i'r cyhoedd). Ein nod yw cael negeseuon cyson a defnydd cyson o iaith yn ein rhaglenni ac ar eu traws. I ategu hyn, mae dogfennaeth glir sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir o'n gwybodaeth i'r cyhoedd o ran y prosesau datblygu ac adolygu, y dyluniad a'r ffordd y mae pethau'n cael eu cyflwyno, a'r arddull iaith a'r ffordd o fynegi pethau.

Rhan allweddol o'n strategaeth adrannol gwybodaeth i'r cyhoedd yw sicrhau bod ein gwybodaeth gyffredinol yn hygyrch ac mewn iaith glir, a bod gennym fformatau hygyrch penodol ar gyfer ein holl adnoddau, gan gynnwys print bras, sain, Iaith Arwyddion Prydain a hawdd eu deall. Mae'r llwybr gwybodaeth i'r cyhoedd ar gyfer pob rhaglen sgrinio'n cael ei adolygu i nodi bylchau mewn darpariaeth gwybodaeth hygyrch fel y gellir cymryd camau priodol er mwyn sicrhau argaeledd cyson gwybodaeth hygyrch.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gynnwys fel rhan o'n prosesau datblygu ac adolygu gwybodaeth. Mae hyn yn aml dan arweiniad y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio sydd â chysylltiadau mewn grwpiau cymunedol allweddol, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchoddedig a lle rydym yn gwybod bod y cyfraddau sgrinio wedi bod yn isel.

8.3 Asesiad Tegwch Iechyd

Gall camau a gymerir gan y rhaglenni i fynd i'r afael â'r cyfraddau sgrinio, drwy amryfusedd, ehangu'r bwch annhegwch os na chânt eu hystyried yn ofalus a'u hasesu. Felly, wrth gynllunio gwasanaethau, strategaethau ac ymyriadau iechyd cyhoeddus, bydd angen ystyriaeth ehangach o ran asesiad effaith.


I helpu rhaglenni i gynnal asesiadau effaith, mae pecyn cymorth ymarferol ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Iechyd Cydraddoldeb wedi'i ddatblygu. Bydd y pecyn cymorth hwn yn helpu rhaglenni a thimau wrth ystyried gweithredu polisi, newidiadau gwasanaeth neu gynlluniau moderneiddio wrth asesu'r effeithiau posibl ar grwpiau poblogaeth gwahanol. Mae'r pecyn cymorth Asesiadau Effaith Iechyd Cydraddoldeb yn helpu i ddatblygu camau lliniaru y gellir eu hystyried i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl. Yna, gall hyn lywio newid wedi'i gynllunio.

[DOLEN i'r rhai sy'n fewnol yn ICC](#)

9 Ein dull o ymdrin ag annhegwch yn y cam adfer ac ar ôl hynny

Wrth i wasanaethau gael eu hadfer a'u hailadeiladu wedi effaith pandemig Covid-19, mae mynd i'r afael ag annhegwch sgrinio'n ffocws allweddol yng Nghynllun Strategol: 2022 i 2025 ICC. Bydd ein dull a nodwyd yn y Strategaeth hon yn adlewyrchu sut y bydd yr Adran a'n partneriaid yn gweithio i gyflawni hyn hyd at 2025.

Ein nod yw galluogi'r holl gyfranogwyr cymwys i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am sgrinio. Mae hyn yn gymhleth, dylanwedir arno gan ffactorau iaith, cymunedol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio ar ymddygiad, yn ogystal â mynediad ffisegol at wasanaethau. Er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch sgrinio presennol, bydd ein dull yn canolbwyntio camau mewn pum maes allweddol (Ffigur 6). Bydd y meysydd allweddol hyn yn adeiladu ar ein cryfderau presennol a'n hasedau yn yr Adran Sgrinio a'r rhwydwaith partneriaid ehangach.

Ffigur 6: Dull Annhegwch Sgrinio Strategol

1. Cyfathrebu

Byddwn yn cefnogi pobl i wneud penderfyniadau personol ar sail gwybodaeth am gymryd rhan mewn profion sgrinio drwy roi gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n hygyrch o ran fformat a chynnwys. Bydd gwybodaeth ar gael ar ffurf print bras, hawdd ei deall a fformatau Iaith Arwyddion Prydain. Bydd tudalennau gwe'n defnyddio meddalwedd hygyrchedd testun i leferydd ReadSpeaker. Byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau i ddeall a oes angen cyfieithu negeseuon i ieithoedd lleiafrifol ac a fyddai fformatau ysgrifenedig neu fideo'n well. Bydd ein canfyddiadau'n llywio dull corfforaethol ICC i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd mewn ieithoedd lleiafrifol. Os oes angen gwybodaeth mewn ieithoedd lleiafrifol, byddwn yn sicrhau bod dull cyson ar draws yr holl raglenni wrth ddatblygu'r negeseuon gofynnol; sicrhau ansawdd cyfieithiadau; llywodraethu diweddarau ac adolygu'r deunydd darllen sydd ar gael a monitro'r defnydd gan aelodau o'r cyhoedd o adnoddau sydd wedi'u cyfieithu.

Rydym yn cydnabod mai dim ond rhan o'r ateb yw argaeledd gwybodaeth hygyrch, mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn gweithio i gefnogi datblygu dewisiadau cyfathrebu fel rhan o Safonau Hygyrchedd i sicrhau bod pobl yn cael y neges sy'n gywir iddynt y tro cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith a wneir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol i ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu atebion digidol arloesol yn gyflym i GIG Cymru.

Gan weithio gyda'n tîm cyfathrebu, byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu strategol ar lefel poblogaeth a chymunedol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau negeseuon i'r boblogaeth gyffredinol at ddiben sgrinio, diogelwch y gwasanaethau a phwysigrwydd mynd i apwyntiad sgrinio neu gynnal prawf sgrinio pan gewch eich galw. Byddwn yn adeiladu ar ein cydweithrediad â "Helpwch Ni i'ch Helpu Chi" i rannu negeseuon allweddol o bwysigrwydd dulliau ataliol o gadw'n iach. Byddwn yn parhau i ddatblygu

a chefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel #CaraGegDyGroth. Bydd ymgyrchoedd cyfathrebu'n cael eu targedu'n bennaf at gynulleidfaoedd o gymunedau C2DE a lleiafrifoedd ethnig, a byddant yn cael eu llywio gan ganfyddiadau'r gynulleidfa. Byddwn yn rhannu ein hadnoddau a'n harbenigedd i feithrin ymddiriedaeth mewn sgrinio a'r rhaglenni sgrinio yng Nghymru i gynyddu ysgogiad i gymryd rhan. Bydd ymgyrchoedd cyfathrebu'n cael eu gwerthuso fel y gallwn fesur eu heffaith, mesur teimladau'r cyhoedd tuag at raglenni sgrinio Cymru a nodi themâu sy'n dod i'r amlwg mewn sgwrs gyhoeddus.

Fel rhan o'n cynllun cyfathrebu strategol, bydd negeseuon allweddol yn cael eu datblygu i sicrhau y gellir rhannu negeseuon clir a chyson drwy ein partneriaid. Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cynnwys digidol fel ffeithluniau ac animeiddiadau a all oresgyn y rhwystrau llythrennedd iechyd a geir gyda deunyddiau testun. Gan ddysgu o raglen frechu Covid-19, byddwn yn datblygu cynnwys digidol y gellir ei rannu'n hawdd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys WhatsApp i sicrhau y gellir cyflwyno ein negeseuon drwy'r sianeli y mae ein grwpiau poblogaeth yn eu defnyddio amlaf. Bydd angen negeseuon allweddol ar gyfer pob un o'n rhaglenni i adlewyrchu'r carfanau a llwybrau poblogaeth gwahanol dan sylw.

Byddwn hefyd yn datblygu negeseuon wedi'u targedu ar gyfer cymunedau, yn enwedig y rhai y nodir bod y cyfraddau sgrinio'n isel neu fod ymddiriedaeth yn y rhaglenni sgrinio'n isel. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol gwranddo ar bryderon cymunedau ac ymateb i'w hanghenion. Bydd hyn yn sgwrs ddwyffordd ag unigolion, grwpiau neu gymunedau, gan wrando ar ein gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd. Ein rôl yw troi'r sylfaen dystiolaeth a gwybodaeth wyddonol yn negeseuon clir i lywio eu penderfyniadau. Pan fo'n bosibl, bydd deunyddiau cyfathrebu'n cael eu cydgynhyrchu gan bobl o'r gynulleidfa darged berthnasol.

Bydd dulliau cyfathrebu wedi'u hysgogi gan dystiolaeth, gan ddefnyddio canfyddiadau o waith ymgysylltu cenedlaethol gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio a gwaith gan bartneriaid allanol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd gyda'r astudiaeth CABS. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Tîm Newid Ymddygiad a Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn ICC i ddefnyddio eu harbenigedd i lywio ein cyfathrebu craidd gyda'n poblogaethau.

2. Ymgysylltu a chymuned

Mae rhwystrau a galluogwyr ar gyfer sgrinio'n amrywio ar draws grwpiau poblogaeth. Mae angen i ni gydweithio â chymunedau fel y gallwn ddeall rhesymau pobl dros wneud y dewisiadau y maent yn eu gwneud. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau lle y mae cyfraddau sgrinio'n isel, lle y mae niwed iechyd o'r cyflyrau y sgrinnir ar eu cyfer yn fawr a chyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n hysbys bod ganddynt ganlyniadau iechyd gwaeth. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol cael ac adnoddau i

sicrhau cynnwys gwirioneddol ac integreiddiad drwy rwydweithiau cynaliadwy.

Byddwn yn adeiladu ar waith ymgysylltu presennol, gan gryfhau gwaith manwl blaenorol gyda'r gymuned LHDTC+, cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a phobl ag anableddau dysgu. Byddwn yn ceisio rhagor o bartneriaethau â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau cymunedol na fu ymgysylltiad gofal iechyd ar gael iddynt o'r blaen. Byddwn yn hyblyg o ran deall sut y mae cymunedau'n newid ac yn addasu a chyda phwy y gallwn ac y dylem fod yn gweithio. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddiweddarau ac adolygu ein dadansoddiad rhanddeiliaid yn rheolaidd a datblygu strategaeth cynnwys defnyddwyr ar gyfer yr adran.

Byddwn yn cefnogi gwaith i ddatblygu panel dinasyddion yn ICC i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau sgrinio a chynrychiolwyr grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Rhaid i hyn gynnwys pobl â gwybodaeth a dealltwriaeth wahanol o sgrinio i adlewyrchu llythrennedd iechyd ein grwpiau poblogaeth. Byddwn yn gweithio gyda'r panel dinasyddion fel y gall ddylanwadu ar y dull o fynd i'r afael ag annhegwch yn yr Adran Sgrinio ac yn y sefydliad. Byddwn yn sicrhau ein bod yn rhoi adborth i'r rhai dan sylw fel y gallant ddeall effaith eu cyfraniad ar ddatblygu gwasanaethau a sut y mae hyn wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau.

Byddwn yn gweithio drwy'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio a'r partneriaid BILL i ddatblygu rhwydweithiau o hyrwyddwyr cymunedol. Gall yr hyrwyddwyr hyn, fel lleisiau dibynadwy yn ein cymunedau, adolygu ein negeseuon ar gyfer derbynioldeb ac yna helpu i'w lledaenu a'u rhannu. Mae angen i ni ddarparu cymorth ymarferol a bugeiliol i'r hyrwyddwyr cymunedol hyn fel eu bod yn teimlo'n ddigon gwybodus a hyderus i siarad fel llais dibynadwy ar sgrinio. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol addasu i ddulliau cyfathrebu gwahanol, fel eu bod yn briodol ar gyfer y cymunedau. Pan fydd angen, byddwn yn darparu cyfeillion arbenigedd proffesiynol o ICC gydag aelodau cymunedol i gysoni â lleisiau cymunedol a phroffesiynol.

3. Cydweithio

Byddwn yn cydweithio er mwyn parhau i adeiladu rhwydwaith sgrinio. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni'r Adran Sgrinio; timau Iechyd Cyhoeddus Byrddau Iechyd Lleol; Gofal Sylfaenol yn darparu ac yn cefnogi rhaglenni sgrinio; partneriaid y trydydd sector yn hyrwyddo sgrinio a'n cysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'n cydweithwyr gofal eilaidd yn GIG Cymru yn cynnal profion diagnostig a thriniaethau i gwblhau'r llwybr sgrinio. Bydd angen i ni weithio ar y cyd ac yn gydlynus fel system i sbarduno'r gwelliannau angenrheidiol i arwain at ganlyniadau gwell i bobl.

Bydd hyn yn cynnwys cefnogi rhwydweithiau presennol fel Grŵp Annhegwch yr Adran Sgrinio gyda chynrychiolaeth o'r holl raglenni sgrinio a'r Grŵp Sgrinio ac Annhegwch sy'n hwyluso gweithio mewn partneriaeth ar draws

yr Adran Sgrinio a phartneriaid Byrddau Iechyd Lleol. Yn y grwpiau hyn, byddwn yn gweithio mewn modd ystwyth a hyblyg i hyrwyddo rôl sgrinio fel gwasanaeth iechyd cyhoeddus ataliol effeithiol gan ganolbwyntio o'r newydd ar rymuso camau i fynd i'r afael ag annhegwch sy'n bodoli eisoes.

Fel arweinydd systemau ar gyfer sgrinio yng Nghymru, bydd yr Adran Sgrinio'n cefnogi cydweithio drwy fynediad gwell at yr arbenigedd proffesiynol yn yr Adran. Er mwyn cefnogi rhannu data a gwybodaeth a all wedyn lywio camau wedi'u targedu, byddwn yn cynhyrchu diweddariadau rheolaidd i'n partneriaid mewn Byrddau Iechyd Lleol. Bydd hyn yn cynnwys data sgrinio presennol ar gyfer eu hardal, gan gynnwys cyfraddau sgrinio a chwmpas yn ôl ffactorau demograffig rydym yn gwybod eu bod yn effeithio ar sgrinio fel anfantais economaidd ac ethnigrwydd.

Mae pobl yn cael profiad o annhegwch drwy gydol y broses sgrinio, gan gynnwys o ran manteisio ar gynnig sgrinio, mynd i archwiliadau diagnostig a chael triniaeth wellhaol.²³ Os yw cyfranogwr yn derbyn ei gynnig sgrinio, ond ni all gael triniaeth ar gyfer ei ganlyniad risg uchel, ni welir gwelliant o ran canlyniadau iechyd a gostyngiad mewn annhegwch iechyd. Er mwyn gwneud y gorau o'r budd ar draws y llwybr sgrinio cyfan, byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr BIL ym maes iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cynnig sgrinio, yn ogystal â chydweithwyr gofal eilaidd a diagnostig fel y gall cleifion barhau mewn modd amserol ar hyd y llwybr sgrinio. Bydd hyn yn cynnwys adborth a data ar heriau ar draws y llwybr sgrinio, er enghraifft mewn amseroedd aros archwiliadau diagnostig ac oedi ar gyfer triniaeth ddiffiniol, gan gydnabod strwythur integredig Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu gofal i'w poblogaethau.

Er mwyn cryfhau cydweithio a chynnwys, byddwn yn datblygu ein tudalennau gwe "Gwybodaeth Sgrinio i Weithwyr Proffesiynol" ar ein gwefan. Bydd hyn yn ein galluogi i goladu a rhannu ymchwil, canllawiau, gwerthusiadau gwasanaeth ac ymgysylltu cymunedol â phartneriaid proffesiynol i sicrhau bod ein camau ar y cyd yn cael yr effaith fwyaf wrth wella cyfraddau sgrinio ar draws cymunedau. Mae gan bob rhaglen garfan unigryw o'r boblogaeth a model cyflawni, ond bydd rhwystrau cyffredin y bydd angen eu hystyried ar draws pob rhaglen. Mae effaith anghymesur Covid-19 ar boblogaethau gwahanol wedi cynyddu'r pwyslais ar fynd i'r afael ag annhegwch. At hynny, mae cyfleoedd i sgrinio ddysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill, er enghraifft yn y rhaglen frechu, i gynyddu cyfraddau sgrinio ar draws pob cymuned. Gall gwerthusiadau o ymyriadau a gynhelir yn lleol gael eu rhannu ar y llwyfan hwn fel y gellir casglu gwersi ar draws y system.

Er mwyn cynnwys ein partneriaid yn effeithiol yng ngwaith cynllunio, darparu a gwerthuso ein rhaglenni, byddwn yn datblygu dealltwriaeth well o'n rhyngweithiadau presennol â'n partneriaid. Bydd hyn yn cefnogi deialog gyson gan yr Adran Sgrinio, yn hytrach na dulliau lluosog gan raglenni

gwahanol. Mae cydweithwyr gofal sylfaenol yn hanfodol i lwyddiant sgrinio drwy gefnogi nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio a darparu llais dibynadwy i gefnogi gweithgareddau sgrinio. Gallwn adeiladu ar waith pobl nad ydynt yn ymateb gyda chlystyrau meddygon teulu megis ardystiad meddyg teulu llythyrau at bobl nad ydynt yn ymateb mewn sgrinio coluddion i annog cyfranogiad a chynyddu'r nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio.²⁴ Bydd y dull dan arweiniad lleol, gan ddefnyddio dulliau gwahanol er mwyn cysylltu ag unigolion, gan gynnwys llythyr, ffôn neu neges destun, yn seiliedig ar adnoddau practis a dealltwriaeth o'i boblogaeth.

4. Modelau mynediad a chyflawni (gweithredol)


Yn ystod ein cyfnod adfer, bu canolbwyntio o'r newydd ar gynyddu effeithlonrwydd a gwneud y gorau o'r defnydd o glinigau. Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff y nifer mwyaf o bobl eu gweld mewn clinigau â chapasiti cyfyngedig. Fodd bynnag, rhaid i ni gydbwysu effeithlonrwydd gweithredol gwell ag effeithiau nas bwriedir ar hygyrchedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd cynnal Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Iechyd yn ystod cyfnod cynllunio'r holl newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn deall canlyniadau negyddol posibl ac yn gallu lliniaru yn eu herbyn. Er enghraifft, wrth ystyried ehangu lleoliadau neu hybiau sgrinio fel yr ystyrir hygyrchedd lleoliadau mewn cymunedau, megis ar gyfer llwybrau trafniadaeth gyhoeddus. Dylai newidiadau o ran darparu gwasanaeth o'r fath hefyd gael eu gwerthuso'n gadarn, gan gynnwys mesurau annhegwch yn y gwerthusiad.

Er mwyn ymgorffori Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Iechyd yn arfer rheolaidd yn yr Adran Sgrinio, darperir hyfforddiant a chymorth wrth ddefnyddio'r pecyn offer. Bydd hyn yn cynnwys cymorth dan arweiniad cymheiriaid yn y Grŵp Annhegwch Sgrinio ar gyfer adolygu Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Iechyd ar draws y rhaglenni. Bydd hyn yn cefnogi sicrwydd ansawdd yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Iechyd ac yn gyfle arall i rannu gwersi a phrofiad ar draws yr Adran Sgrinio. Bydd gwerthusiad o'r pecyn cymorth Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Iechyd hefyd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i ateb y gofyn a'i fod yn adnodd defnyddiol ychwanegol i raglenni wella darpariaeth eu gwasanaeth.

Gan fod sgrinio'n llwybr, bydd pob rhaglen yn cynnal dadansoddiad o daith defnyddwyr sy'n cwmpasu'r broses gyfan i ystyried rhwystrau ar gamau gwahanol o'r llwybr sgrinio. Gall rhwystrau fodoli ar unrhyw gam o'r daith sgrinio, ond bydd dull cychwynnol yn ystyried y tri cham, sef nodi carfan, darparu gwybodaeth a mynediad at wasanaethau (Ffigur 7). Oherwydd modelau darparu gwasanaeth gwahanol pob rhaglen sgrinio, cynhelir hyn fesul rhaglen. Fodd bynnag, disgwylir nodi themâu allweddol y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn yr Adran.

Ffigur 7: Annhegwch yn y llwybr sgrinio

Dyddiad: Mehefin 2022	Fersiwn: 2 - gwe	Tudalen: 19 o 26
----------------------------------	-------------------------	-------------------------



Mae angen i bob rhaglen fod yn hygyrch i bobl gyda dulliau cyfathrebu lluosog yn bosibl. Bydd hyn yn cefnogi pobl mewn tlodi digidol, pobl sy'n gweithio oriau anghymdeithasol, pobl â chyfrifoldebau gofalu, pobl â namau ar y synhwyrchau nad ydynt yn gallu siarad ar y ffôn, neu nad ydynt yn gyfforddus yn gwneud hynny a phobl â phryderon iechyd meddwl sy'n profi gorbryder drwy gyfathrebu'n uniongyrchol. Byddwn yn sicrhau bod dulliau cyfathrebu dros y ffôn a thrwy e-bost gan bob rhaglen i gyfranogwyr gysylltu os oes ganddynt gwestiynau ac ymholiadau.

Mae angen i ni roi cyfrif am amrywiaeth yn y ffordd rydym yn darparu rhaglenni sgrinio, gan sicrhau y rhoddir addasiadau rhesymol ar waith pan fo angen, yn darparu rhaglen hyblyg i ddiwallu anghenion pob unigolyn. Ni fydd darparu'r un gwasanaeth i bawb yn mynd i'r afael ag annhegwch gan y bydd angen cymorth ychwanegol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig fel y gallant gael mynediad at yr un gwasanaeth. Mae angen i raglenni sgrinio sicrhau nad ydynt yn rhoi pobl dan anfantais, fel y rhai ag anableddau corfforol wrth gael mynediad at eu gwasanaethau. Gall hyn fod drwy anawsterau'n cynnal profion gartref oherwydd cyflwr corfforol neu gyrraedd lleoliad sgrinio. Mae angen i'r gyfranogwyr fod yn ymwybodol o sut i gysylltu â thimau sgrinio i gael y cymorth angenrheidiol.

5. Data ac ymchwil

Rhaid i'n canolbwynt o'r newydd ar annhegwch sgrinio, yn dilyn y newidiadau i'n ffyrdd o weithio yn ystod pandemig Covid-19, gael ei lywio gan ddata a deallusrwydd. Rhaid i hyn gael ei rannu mewn dull amserol a dibynadwy yn ein rhaglenni, yn yr adran ac â'n partneriaid. Mae ei dull casglu data arferol yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion demograffig y mae'n hysbys bod annhegwch o ran manteisio ar sgrinio yn effeithio arnynt, gan gynnwys oed, rhywedd fel y cofrestrwyd gyda meddyg teulu ac Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sy'n llywio cwintel amddifadedd. Bydd ein gwaith adrodd yn y dyfodol yn coladu hyn mewn adroddiad Annhegwch Sgrinio blynyddol. Gellir defnyddio hyn i lywio camau gan raglenni yn yr adran ac i'n partneriaid, gan gynnwys cydweithwyr Byrddau Iechyd Lleol ac ym maes iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol.

Mae adborth gan ein partneriaid yn dweud wrthym, yn ogystal â gwaith adrodd blynyddol, fod angen mwy o ddata amserol, amser real. Byddwn yn gweithio i ddatblygu dangosfwrdd data i ddarparu gwybodaeth yn gyflymach a all lywio camau lleol. Bydd hyn yn defnyddio mesurau ar gyfer manteisio ar sgrinio dros gyfnodau byrrach i gydbwysu amseroldeb adrodd â chadernid monitro data a fydd ar gael yn yr adroddiad blynyddol.

Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru yn dangos bod gan bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig gyfraddau sgrinio is na phobl ethnigrwydd Gwyn. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau yn Lloegr a'r Alban a ddangosodd fwlch anghydraddoldeb yn y cyfraddau sgrinio rhwng grwpiau ethnig. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth o'r sgrinio mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn gyfyngedig oherwydd gwybyddiad ethnigrwydd gwael mewn casgliadau data arferol yng Nghymru. Byddwn yn ategu'r gwaith cenedlaethol a wnaed gan gydweithwyr yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru i wella cofnodi ethnigrwydd mewn data arferol a gwaith gyda'n timau clinigol i sicrhau y caiff gwybyddiaeth ethnigrwydd ei gasglu fel rhan o'r trefniadau casglu data arferol yn ystod yr holl ryngweithiadau â chleifion. Gall hyn olygu bod angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol i staff fel eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn i bobl am eu hethnigrwydd a phwysigrwydd pam y mae hyn yn helpu i ddarparu gwasanaethau cynhwysol i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae angen i ni ddatblygu prosesau arferol ar gyfer llunio data monitro ar ethnigrwydd yn ychwanegol at ffactorau demograffig eraill a fydd yn cael eu cyflwyno yn ein hadroddiadau annhegwch. Oherwydd y nifer bach o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn grwpiau oedran hŷn a rhanbarthau daearyddol, mae angen ystyried amllder a manylder cyhoeddi data. Ein dull i ddechrau fydd darparu cyfraddau sgrinio yn ôl ethnigrwydd ar gyfer y rhaglenni Sgrinio Coluddion Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru oherwydd eu carfanau poblogaeth iau mwy. Wrth i'n systemau casglu data a chysylltu data wella, bydd hyn yn cael ei ehangu i'r rhaglenni sgrinio poblogaeth oedolion eraill, sef Bron Brawf Cymru, Rhaglen Sgrinio Ymlediaadau Aortig Abdomenol Cymru a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y data a gesglir gennym yn gyfyngedig ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis pobl sy'n ddigartref, cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Nid yw ein dulliau casglu data presennol yn casglu'r wybodaeth hon. Byddwn yn gweithio drwy ein Tîm Ymgysylltu â Sgrinio gyda grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu a dylunio offer casglu data a fydd yn darparu canfyddiadau ynghylch nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio yn y grwpiau hyn. Gall hyn gynnwys adborth ansoddol gan gyfranogwyr a chymunedau.

Diben casglu data yw llywio ein camau, fel y gallwn nodi grwpiau poblogaeth lle y mae'r cyfraddau hawlio'n isel a darparu cymorth ac ymyriadau penodol i'r grwpiau hyn. Byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu ein dealltwriaeth o

annhegwch o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio ar gamau gwahanol o'r llwybr clinigol. Bydd hyn yn ein helpu ni a'n partneriaid i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd lle y mae'r annhegwch mwyaf a lle y gall ymyriadau penodol gael yr effaith fwyaf.

Mae angen i ni ddatblygu fframweithiau gwerthusol a fydd yn galluogi adolygiad cyson o ymyriadau fel y gellir monitro'r effaith ar gyfraddau sgrinio. Fel rhan o sicrhau bod camau i fynd i'r afael ag annhegwch yn rhan annatod o'n holl raglenni, byddwn yn gweithio gydag arweinwyr rhaglenni i ffurfio a diffinio dangosyddion annhegwch sgrinio fel mesur arferol i werthuso effeithiolrwydd ein rhaglenni sgrinio.

10 Ein hymrwymiaidau

Er mwyn cynnal camau i fynd i'r afael ag annhegwch, mae Fframwaith Annhegwch Sgrinio wedi'i ddatblygu. Mae hyn yn nodi cyfres o ymrwymiaidau i ddatblygu camau ar draws ein meysydd allweddol.

Cyfathrebu		
Ein hymrwymiad:		
<ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwybodaeth am sgrinio mewn fformat hygyrch, gan ddefnyddio iaith briodol fel y gall pob unigolyn wneud ei ddewis personol ei hun ar sail gwybodaeth. • Darparu negeseuon clir, cyson i'r cyhoedd am ddiben sgrinio a sut y gall sgrinio wella canlyniadau iechyd drwy ddefnyddio fformatau cyfryngau digidol a thraddodiadol. • Datblygu negeseuon wedi'u teilwra i grwpiau a chymunedau lle y nodir rhwystrau penodol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch atal manteisio ar sgrinio. 		
Cymuned ac ymgysylltu		
Ein hymrwymiad:		
<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu rhwydweithiau cynaliadwy gyda phobl o gymunedau lleol, y trydydd sector a sefydliadau statudol i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu cymunedol. • Deall rhwystrau i sgrinio mewn cymunedau lle y mae'r cyfraddau sgrinio'n isel, gan weithio gydag eiriolwyr a hyrwyddwyr cymunedol i feithrin ymddiriedaeth. • Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a phobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, â lefelau gwahanol o lythrennedd iechyd sgrinio, mewn panel dinasyddion i lywio a chefnogi'r dull o fynd i'r afael ag annhegwch ar draws yr adran a'r sefydliad. 		
Cydweithio		
Ein hymrwymiad:		
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi ein partneriaid fel arweinydd systemau ym maes sgrinio gyda data, adnoddau ac arbenigedd. • Datblygu man dysgu a rennir ar gyfer adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio dulliau cymunedol dan arweiniad lleol o fynd i'r afael ag annhegwch sgrinio. • Estyn ein trefniadau cydweithio â gofal sylfaenol yn eu rôl o ran cefnogi a darparu rhaglenni sgrinio, gan ddefnyddio eu cefnogaeth fel lleisiau dibynadwy i'w cleifion. 		
Darparu gwasanaethau		
Dyddiad: Mehefin 2022	Fersiwn: 2 - gwe	Tudalen: 22 o 26

Ein hymrwymiad:

- Mapio teithiau defnyddwyr i nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer camau rhagweithiol i wella mynediad at raglenni sgrinio a dileu rhwystrau diangen.
- Sicrhau y gwneir addasiadau rhesymol drwy gamau cadarnhaol, gan gynnwys darparu opsiynau lluosog i bobl ag anableddau gyfathrebu â rhaglenni.
- Mabwysiadu dull cyson o gynnal Aseidiadau Effaith Iechyd Cydraddoldeb sy'n sicrhau bod newidiadau gweithredol yn gwella darpariaeth gwasanaeth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau cynhwysiant.

Data a monitro**Ein hymrwymiad:**

- Llunio a chyhoeddi adroddiad tegwch blynyddol i alluogi mynediad at ddata annhegwch a sgrinio ystyrion a all lywio camau.
- Datblygu dull cynaliadwy o fonitro cyfraddau sgrinio yn ôl cymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gefnogi dulliau lleol a chenedlaethol o wella trefniadau casglu data
- Sicrhau atebolrwydd am gamau i leihau annhegwch sgrinio drwy gyflwyno mesurau a dangosyddion canlyniadau annhegwch ar gyfer yr holl raglenni sgrinio

11 Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae mynd i'r afael ag annhegwch yn thema ar draws y rhaglenni yn yr Adran, wedi'i gwneud yn rhan annatod o'n ffyrdd arferol o feddwl. Adlewyrchir hyn fel thema allweddol yng Nghynllun Strategol 2022-2025 ICC i barhau â'n gwaith i fynd i'r afael ag annhegwch yn y cyfraddau sgrinio. Fel amcanion allweddol yn y Cynllun Strategol, caiff hyn ei fonitro drwy gyfarfodydd adrannol a thîm a chynlluniau prosiect gydag atebolrwydd cyffredinol i Dîm Uwch-reolwyr yr Adran Sgrinio. I ategu hyn, fel y nodwyd yn yr ymrwymadau data a monitro, y bydd datblygu mesurau annhegwch a'u gwneud yn rhan annatod o'r dangosyddion perfformiad arferol ar gyfer rhaglenni sgrinio.

Er mwyn sbarduno newid ac atebolrwydd ar draws yr holl raglenni, bydd arweinydd a enwir yn cael ei nodi ar gyfer pob rhaglen i fwrw ymlaen â chamau ar annhegwch. Mae pob rhaglen yn unigryw gyda phoblogaeth wahanol oherwydd meini prawf rhywedd ac oedran gyda chyfnodau ailalw gwahanol i'r cyfranogwyr. Felly, bydd pob rhaglen yn egluro gweledigaeth a nod y ffrwd waith annhegwch yn y rhaglen dan fframwaith cyffredin.

Mae'r Adran Sgrinio'n atebol am ddarparu rhaglenni sgrinio yng Nghymru. Fodd bynnag, cynhelir profion sgrinio drwy amrywiaeth o bartneriaid gofal iechyd ac ategir hynny drwy swyddogaethau galluogi fel y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio. Mae byrddau iechyd lleol hefyd yn atebol am lesiant eu poblogaethau a gefnogir drwy ddulliau ataliol fel profion sgrinio seiliedig ar boblogaeth. Mae timau Byrddau Iechyd Lleol yn bartneriaid allweddol mewn gwaith ymgysylltu drwy fentrau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ond gallant gefnogi darpariaeth sgrinio gynaliadwy drwy ofal sylfaenol ac ystyried y llwybr cyfan gydag archwiliadau hygyrch ac amserol a

thriniaethau'n cael eu cynnal mewn canolfannau gofal eilaidd a thrydyddol. Bydd sefydlu Grŵp Sgrinio ac Annhegwch ar gyfer yr Adran Sgrinio a Thimau Iechyd Cyhoeddus Byrddau Iechyd Lleol yn cael ei ategu gydag Adran Sgrinio ICC yn ymrwymo i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth parhaus. Bydd y grŵp hwn hefyd yn hwyluso cyfathrebu dwyffordd a lle ar gyfer dysgu a rennir.

Byddwn yn monitro ein cynnydd i wireddu ein gweledigaeth, sef mynediad a chyfle cyfartal ar gyfer profion sgrinio drwy ddatblygu Fframwaith Gweithredu Annhegwch Sgrinio. Bydd y fframwaith gweithredu'n defnyddio fframwaith damcaniaethol gwyddor ymddygiadol model COM-B ar gyfer newid ymddygiadol.²⁵ Mae'r dull hwn yn ystyried galluogrwydd, cyfle ac ysgogiad person i ymgymryd ag ymddygiad iechyd penodol fel cael prawf sgrinio. Gall ffactorau galluogrwydd ymwneud â diffyg gwybodaeth am ganser a diben profion sgrinio canser a all waethygu oherwydd rhwystrau iaith neu lythrennedd iechyd isel. Gall ffactorau galluogrwydd hefyd ymwneud â diffyg sgiliau i gael y prawf fel prawf sgrinio yn y cartref. Gall ffactorau cyfle ymwneud â'r rhwystrau ffisegol fel pellter a thrafnidiaeth i fynd i leoliad sgrinio neu rwystrau ymarferol fel diffyg cofrestriad gyda meddyg teulu neu newidiadau mynych i wybodaeth gyswllt yn golygu nad yw cynnig gwahoddiad yn cyrraedd. Gall ffactorau ysgogiadol ymwneud ag ymatebion emosiynol i sgrinio fel ofn neu embaras neu gredoau o ganfyddiad risg i'r cleifion eu hunain neu eraill yn eu cymuned.

Ein nod yw bod yn fwriadol uchelgeisiol o ran cwmpas a graddfa, gan ei gwneud yn ofynnol sicrhau camau ar draws y themâu allweddol gan amrywiaeth eang o bartneriaid. Fodd bynnag, mae hyn yn adeiladu ar asedau a chryfderau presennol mewn timau i fynd ati'n gyflym nawr i fynd i'r afael â her annhegwch ym maes sgrinio.

12 Cyfeiriadau

1. Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. 2018. Guidance for the development, production and review of information to support UK population screening programmes. Ar gael ar-lein ar: <https://www.gov.uk/government/publications/uk-national-screening-committee-information-development-guidance>
2. Petro et al. 2004. The cervical cancer epidemic that screening has prevented in the UK. Lancet. 364: 249-256
3. Panel Annibynnol y DU ar Sgrinio Canser y Fron. 2013. The benefits and harms of breast cancer screening: an independent review. British Journal of Cancer. 108: 2205-2240
4. Jodal et al. 2019. Colorectal cancer screening with faecal testing, sigmoidoscopy or colonoscopy: a systematic review and network meta-analysis. BMJ Open
5. Mosquera I et al. 2020. Inequalities in participation in colorectal cancer screening programmes: A systematic review. Eur J Public Health. 2020;30(3):416–25.
6. The Marmot Review. 2010. Fair Society: Healthy Lives. Strategic Review of Health Inequalities in England post 2010. [Fair Society, Healthy Lives \(instituteofhealthequity.org\)](http://instituteofhealthequity.org)
7. Iechyd Cyhoeddus Lloegr. 2020. PHE Screening inequalities strategy <https://www.gov.uk/government/publications/nhs-population-screening-inequalities-strategy/phe-screening-inequalities-strategy>
8. NHS Screening. 2022. NHS Screening. Ar gael ar: [NHS screening - NHS \(www.nhs.uk\)](http://www.nhs.uk). Cyrchwyd ddiwethaf 17/01/2022
9. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2022. Sgrinio. Ar gael ar-lein ar [Sgrinio - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](http://gig.cymru). Cyrchwyd ddiwethaf 17/01/22.
10. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2018. Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru: Strategaeth Hirdymor 2018-30. Ar gael ar-lein ar; [Strategaeth Hirdymor \(icc.gig.cymru\)](http://icc.gig.cymru)
11. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2022. Ein Cynllun Strategol 2022-2025. [Ar gael ar-lein ar: IMTP-2022---2025-v1-010422.pdf](https://www.gig.cymru/IMTP-2022---2025-v1-010422.pdf)
12. GIG Cymru. 2016. NHS Wales Core Principles. Ar gael ar-lein ar: [NHS Core Principles leaflet.pdf \(wales.nhs.uk\)](https://www.gig.cymru/NHS-Core-Principles-leaflet.pdf)
13. Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2020. Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru: Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion 2020-2024. Ar gael ar-lein ar: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol \(publichealthwales.nhs.wales\)](https://publichealthwales.nhs.wales/Cynllun-Cydraddoldeb-Strategol)
14. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/431222/Deddf-Llesiant-Cenedlaethau-r-Dyfodol-Cymru-2015-Comisiynydd-Cenedlaethau-r-Dyfodol-Cymru.pdf)
15. Llywodraeth y DU. 2010. Deddf Cydraddoldeb 2010. Ar gael ar-lein ar: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>
16. Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2019. PHOF Life expectancy at birth, 2015 to 2017. [PHOF 2017 Characteristics - Area | Tableau Public](https://phof.nhs.uk/PHOF-2017-Characteristics-Area-Tableau-Public)
17. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cancer Incidence in Wales, 2002-2018. Data for FY2018, persons aged 60-74 [Rhyngrwyd]. 2021. Ar gael ar: <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/welsh-cancer-intelligence-and-surveillance-unit-wcisu/cancer-incidence-in-wales-2002-2018>

18. Goff LM. 2019. Ethnicity and Type 2 Diabetes in the UK. *Diabetic Medicine*. 36:8 PP927-938
19. Bansal N et al. 2012. Major ethnic group differences in breast cancer screening uptake in Scotland are not extinguished by adjustment for indices of geographical residence, area deprivation, long-term illness and education. *Br J Cancer*. 2012;106(8):1361-6
20. Szczepura et al. 2008. Breast and bowel cancer screening uptake patterns over 15 years for UK south Asian ethnic minority populations, corrected for differences in socio-demographic characteristics. *BMC Public Health*.
21. Kerrison RS et al. 2021. Ethnic inequalities in older adults bowel cancer awareness: findings from a community survey conducted in an ethnically diverse region in England. *BMC Public Health*. 2021
22. Hoeck S, van de Veerdonk W, I De Brabander. 2020. Do socioeconomic factors play a role in nonadherence to follow-up colonoscopy after a positive faecal immunochemical test in the Flemish colorectal cancer screening programme. *European Journal of Cancer Prevention*. 29 (2), tudalennau 119-126
23. Mansouri D, McMillan DC, Grant Y, Crighton EM, Horgan PG. The Impact of Age, Sex and Socioeconomic Deprivation on Outcomes in a Colorectal Cancer Screening Programme. *PLoS One*. 2013;8(6)
24. Wardle J et al. 2016. Effects of evidence-based strategies to reduce the socioeconomic gradient of uptake in the English NHS Bowel Cancer Screening Programme (ASCEND): four cluster-randomised controlled trials. 387: 10020, pp751-759
25. Michie S, van Stralen M, West R. 2011. The behaviour change wheel: A new method for characterising and designing behavioural change interventions. *Implementation Science*. 6 (42) [The behaviour change wheel: A new method for characterising and designing behaviour change interventions | Implementation Science | Full Text \(biomedcentral.com\)](#)